


Protocol 1b - Diogelu wrth ddenu myfyrwyr / mewn gweithgareddau myfyrwyr

Cyfrifoldeb Penaethiaid Adrannau yw nodi'r holl gyrsiau a chanddynt elfennau gorfodol sy'n cynnwys cyswllt â phlant ac/neu unigolion agored i niwed, sy'n cwrdd â'r gofynion ar gyfer gwiriad DBS. Dylid gwneud hyn yn rhan o'r broses arferol o dderbyn myfyrwyr, a hynny fel arfer gan Swyddog Diogelu Adrannol yr Adran/Cyfadrn honno.

Yna dylid rhoi cadarnhad o wiriadau DBS addas i'r Ysgolion perthnasol ac asiantaethau allanol eraill.

Mae'r rhestr wirio isod yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd ar wahanol adegau o'r broses recriwtio myfyrwyr.

Yn achos cyrsiau/swyddogaethau sy'n cynnwys cyswllt â phlant neu unigolion agored i niwed neu lle ceir ymchwil i ddeunyddiau sensitif a deunyddiau sy'n cael eu diogelu, rhaid cymryd y camau canlynol wrth ddenu myfyrwyr:-



Prosesu Dogfennau Ymgeiswyr

Bydd yr Adran/Cyfadrann Academaidd yn rhoi ffurflen DBS i'r ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer cwrs y mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gael gwiriad DBS ar ei gyfer. Bydd y Swyddog Diogelu Adrannol yn sicrhau bod y ffurflen wedi cael ei llenwi a'r dogfennau perthnasol wedi cael eu gwirio.